# Canllawiau Cafcass Cymru

# Ysgrifennu ar gyfer Plant a Theuluoedd

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | Ebrill 2026 |
| Dyddiad Adolygu: | Ebrill 2027 |

# Canllawiau Cafcass Cymru
# Ysgrifennu ar gyfer Plant a Theuluoedd
### Fersiwn 1 (Ebrill 2026)

## Cynnwys


| Cyflwyniad ........ 2

| 1. Diben y Canllawiau Hyn ........ 3
- 1.1 Diben ........ 3
- 1.2 Pam Y Mae Angen Y Canllawiau Hyn ........ 3

| 2. Pwysigrwydd Iaith ........ 5

| 3. Ysgrifennu Adroddiadau i'r Llys ........ 7

| 4. Enghreifftiau o Ymarfer: Ailfframio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ........ 9
- Enghreifftiau Cyfraith Breifat ........ 9
- Enghreifftiau Cyfraith Gyhoeddus ........ 11

| 5. Ysgrifennu'n Glir, yn Gywir ac yn Ddadansoddol ........ 13
- 5.1 Sicrhau bod Llais y Plentyn yn cael ei Gynrychioli'n Glir ........ 14
- 5.2 Ysgrifennu'n Ddiogel ac yn Glir am Gamdriniaeth Domestig ........ 15

| 6. Cynllunio a Chofnodi Achosion ........ 18
- 6.1 Diben Cofnodi Achosion ........ 18
- 6.2 Effaith Cofnodi Achosion ar Blant a Theuluoedd ........ 18
- 6.3 Llais y Plentyn ........ 19
- 6.4 Amrywiaeth, Hunaniaeth a Phrofiad Bywyd ........ 20

| 7. Defnyddio Iaith sy'n Cefnogi Plant a Theuluoedd ........ 22

| Cyfeiriadau, dolenni defnyddiol ac adnoddau ychwanegol ........ 25

## Cyflwyniad

Rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ystod cyfnodau o straen, cymhlethdod a bregusrwydd sylweddol.  Mae llawer o'r bobl rydym yn eu cefnogi yn ymdrin â thrawma, camdriniaeth ddomestig, ansefydlogrwydd, a pherthnasoedd bregus neu aflonydd.  Yn y cyd-destun hwn, mae gan yr iaith a ddefnyddiwn, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ddylanwad sylweddol.  Gall ein geiriau hyrwyddo eglurder ac urddas a grymuso, neu gallant yn anfwriadol atgyfnerthu stigma, camddealltwriaeth ac ymddieithriad.

> “Mae iaith yn arf pwerus ar gyfer cyfathrebu, ond weithiau mae'r ffordd y caiff ei defnyddio ym maes gofal cymdeithasol yn creu stigma a rhwystrau i ddealltwriaeth.  Mae iaith yn bŵer…”

TACT (Ymddiriedolaeth y Glasoed a Phlant),), *Language That Cares*

# 1. Diben y Canllawiau Hyn

## 1.1 Diben

Nod y Canllawiau Ysgrifennu ar gyfer Plant a Theuluoedd yw ein cynorthwyo wrth gwblhau cofnodion ysgrifenedig, gan gynnwys adroddiadau i'r llys, ar gyfer plant a theuluoedd sy'n rhan o achosion yn y llys teulu.

Maent yn ein hannog i fyfyrio ar yr iaith a ddefnyddir, ac yn cwmpasu egwyddorion sylfaenol:

- Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru, y
- Canllawiau Ymarfer Cam-drin Domestig,
- Papur *Language Matters* y Family Solutions Group, ac
- Gwyliwch eich Geiriau y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc (argymhellion)

Nid yw'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol, a dylid eu defnyddio fel cymorth i lywio ymarfer.

## 1.2 Pam Y Mae Angen Y Canllawiau Hyn

Rydym yn aml yn gweithio gyda phlant a theuluoedd ar adegau pan fo'u cydberthnasau â'i gilydd yn debygol o fod yn fregus. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod llawer o'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw, ar ben hyn, yn wynebu problemau cymhleth ac yn ymdrin â thrawma. Mae'r iaith a ddefnyddiwn i siarad am brofiadau teuluoedd ac unigolion yn bwysig.

> Mae iaith yn bwysig. Mae'r geiriau a ddefnyddiwn yn llywio ein meddyliau, sydd yn ei dro yn effeithio ar y ffordd rydym yn meddwl ac yn ymddwyn.

Family Solutions Group: Language Matters

Gall iaith feithrin ymddiriedaeth, ein helpu i gyfathrebu'n glir, a hwyluso newid. Fodd bynnag, gall hefyd ymyleiddio, stigmateiddio a dadrymuso.

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar egwyddorion Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru, ac maent yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r sefydliad yn ymgysylltu â phlant a theuluoedd, gan feithrin diwylliant ac iaith gyffredin, yn ogystal ag ymagwedd gyffredin at ymarfer. Ffocws Cafcass Cymru yw cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy'r broses cyfiawnder teuluol a sicrhau bod eu lleisiau a'u budd pennaf yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Fframwaith a'r canllawiau hyn yn pwysleisio

pwysigrwydd asesiadau o niwed, risg a llesiant sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed mewn modd ystyrlon.

Gall achosion llys fod yn frawychus ac yn llawn straen i deuluoedd, ac rydym am i'r iaith a ddefnyddiwn fod yn gynhwysol a chefnogi cyfranogiad.

Ein rôl ni yw cefnogi teuluoedd, a rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn gwneud eu cydberthnasau'n anoddach...

… rhaid i ni gofio y bydd y perthnasoedd hyn yn parhau ymhell ar ôl i'r achos ddod i ben, a dylem weithio mewn ffordd sy'n eu cefnogi ac yn eu cryfhau lle bynnag y bo modd.

Rydym am ymgymryd â rôl arweiniol yn y system cyfiawnder teuluol a symud i ffwrdd oddi wrth iaith sy'n ymosodol, yn seiliedig ar hawliau, yn beio ac yn wrthwynebus...

… tuag at iaith sy'n gydweithredol, yn canolbwyntio ar atebion, ac yn datrys problemau, yn unol â dull y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant a Model Safe and Together

## 2. Pwysigrwydd Iaith

Mae pwysigrwydd iaith wrth fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau, ac wrth rymuso plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn cael ei gydnabod yn eang. Mae defnyddio iaith barchus, glir a hygyrch yn helpu i leihau camddealltwriaethau ac yn atal problemau rhag gwaethygu neu emosiynau rhag dwysáu.

> "Rydych eisoes yn ofnus, rydych eisoes yn ymwybodol iawn o'r ddynameg pŵer; mae'n cymryd y cryfaf a'r mwyaf hyderus ohonom i godi llais o flaen gweithwyr proffesiynol a chyfaddef nad oes gennych syniad beth maent newydd ei ddweud."

Community Care (2018)

Mae llawer o'r iaith a ddefnyddiwn yn cael ei llywio gan ein hyfforddiant, ein profiadau ymarfer yn y gorffennol, a'r systemau rydym yn gweithio ynddynt. Ar adegau, gall fod yn hawdd colli golwg ar y geiriau a ddewiswn a'r effaith y gallent ei chael. Mae'n bwysig, lle bynnag y bo modd, bod ein hiaith yn helpu i feithrin cysylltiad yn hytrach na chreu pellter rhyngom ni a'r bobl rydym yn ceisio eu cefnogi.

Gall rhai geiriau ac ymadroddion, megis *"achos," "ymddygiad heriol,"* neu *"anodd ymgysylltu ag ef"*, yn anfwriadol yn lleihau unigolyn i label. Gall hyn dynnu oddi ar unigoliaeth, atgyfnerthu anghydbwysedd pŵer, a'i gwneud yn anoddach meithrin cydberthnasau ystyrlon neu gefnogi ymgysylltiad.

Mae'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw yn cyflwyno ystod eang o brofiadau, cryfderau a heriau. Mewn rhai sefyllfaoedd, ni fydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu, ond mewn eraill gall fod dangosyddion risg clir. Dylem sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwn yn gymesur â'r materion sy'n cael eu trafod ac yn cefnogi dadansoddiad clir a chytbwys.

Wrth ysgrifennu am gamdriniaeth neu ymddygiad niweidiol, dylem ddefnyddio iaith wrthrychol, fanwl a chywir. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi argymhellion diogel a chadarn i'r llys. Er bod tôn barchus a chydweithredol yn bwysig, ni ddylai danseilio pryderon diogelu na lleihau difrifoldeb ymddygiad niweidiol neu annerbyniol. Dylid nodi a disgrifio ymddygiad o'r fath yn glir mewn ffordd bwyllog ac anfeirniadol.

Dylem osgoi defnyddio jargon proffesiynol, acronymau arbenigol neu derminoleg sy'n ddiangen o gymhleth. Gall iaith gymhleth deimlo'n llethol neu'n ddryslyd i blant a theuluoedd a gall eu rhwystro rhag gallu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon.

Lle bo'n ddiogel ac yn briodol, dylem geisio defnyddio iaith sy'n hyrwyddo cydweithio ac yn annog dull sy'n canolbwyntio ar atebion. Mae hyn yn cynnwys nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol a chefnogi teuluoedd i adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.

Dylem hefyd gadw mewn cof efallai nad Cymraeg na Saesneg yw iaith gyntaf rhywun, a bod lefelau llythrennedd yn amrywio. Dylem addasu'r modd rydym yn cyfathrebu, yn ysgrifenedig ac ar lafar, er mwyn diwallu anghenion pob plentyn a theulu.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

...defnyddio iaith glir a hygyrch y gall plant a theuluoedd ei deall.

...osgoi jargon, acronymau arbenigol a therminoleg broffesiynol nad yw wedi'i hegluro.

...disgrifio ymddygiad niweidiol yn wrthrychol, yn ffeithiol, a heb fychanu'r risg.

...mabwysiadu iaith gydweithredol, sy'n seiliedig ar gryfderau lle bo'n ddiogel ac yn briodol.

...bod yn ymwybodol o anghenion iaith, gan gynnwys dwyieithrwydd a lefelau llythrennedd amrywiol.

...dewis geiriau sy'n cefnogi cysylltiad, urddas ac ymgysylltiad.

## 3. Ysgrifennu Adroddiadau i'r Llys

Wrth ysgrifennu adroddiadau i'r llys, dylem ystyried diben yr adroddiad a'r gynulleidfa.  Mae ein rôl yn cael ei chyfarwyddo gan y llys, sy'n nodi'r materion y mae'n rhaid i ni eu harchwilio.  Fodd bynnag, mae'r ffordd rydym yn cyfleu'r materion hynny, yn disgrifio profiadau plant, yn dadansoddi gwybodaeth, ac yn cyflwyno ein barn broffesiynol o fewn ein rheolaeth, a dylai adlewyrchu ymarfer diogel, cytbwys sy'n canolbwyntio ar y plentyn.  Dylai'r iaith a ddefnyddir mewn adroddiadau gefnogi teuluoedd i ddeall y broses asesu ac annog cydweithio.  Ein nod yw helpu teuluoedd i gyrraedd penderfyniadau diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac mae tôn ac eglurder ein hadroddiadau yn chwarae rhan bwysig wrth fodelu'r dull hwn.

Dylai llais y plentyn fod yn ganolog i'n dadansoddiad.  Ac eto, mewn achosion risg uchel a/neu wrthdaro difrifol, gall fod yn hawdd i anghydfodau rhwng oedolion ddominyddu'r naratif.  Mae ailfframio materion drwy brofiad bywyd y plentyn yn helpu rhieni a theuluoedd i fod yn glir ynghylch yr hyn sydd bwysicaf, ac yn cefnogi argymhellion cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Awgrym Ar Gyfer Ymarfer

Efallai y bydd o gymorth i chi fyfyrio ar y canlynol wrth ysgrifennu adroddiadau:

| Beth mae'r plentyn yn ei brofi o ddydd i ddydd? | Sut mae'r mater yn effeithio ar ddatblygiad a llesiant y plentyn? | Sut beth yw byd emosiynol y plentyn? |
|---|---|---|
| • Ystyriwch drefniadau arferol, cydberthnasau, adegau pontio, a'r hinsawdd emosiynol o amgylch y plentyn.<br>• Gall hyn gynnwys ei gydberthnasau â'i rieni, ei frodyr a'i chwiorydd, aelodau ehangach o'i deulu, ei ofalwyr maeth, neu oedolion arwyddocaol eraill, yn ogystal â pha mor gartrefol neu sefydlog y mae'n ymddangos yn ei amgylchedd presennol. | • Meddyliwch am reoleiddio emosiynol, ymddygiad, presenoldeb, addysg, cydberthnasau a diogelwch.<br>• Ystyriwch sut mae unrhyw newidiadau o ran gofal, trefniadau arferol, neu amgylchedd yn effeithio ar ei ymdeimlad o sefydlogrwydd a'i ddatblygiad cyffredinol. | • Sut mae'n disgrifio ei bryderon, ei obeithion, neu ei gydberthnasau?<br>• Beth mae'n ei ddangos drwy ymddygiad neu chwarae?<br>• Meddyliwch am yr oedolion a'r cyfoedion y mae'n troi atynt am gysur, cysylltiad a sicrwydd. |

| Sut fyddai trefniant diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn edrych o safbwynt y plentyn? | Beth mae'r plentyn yn ei ddeall am yr hyn sy'n digwydd? | Sut olwg fyddai ar y mater hwn pe bawn yn ei ddisgrifio'n gyfan gwbl drwy brofiad bywyd y plentyn? |
|---|---|---|
| • Tynnwch ar anghenion y plentyn, ei gryfderau, ffactorau amddiffynnol, a'r dystiolaeth a gasglwyd.<br>• Ystyriwch sut olwg sydd ar ddiogelwch, sefydlogrwydd a sicrwydd emosiynol i'r plentyn hwn, yn y sefyllfa hon. | • Ystyriwch ei oedran, ei gam datblygiadol, ei anghenion cyfathrebu, ac unrhyw gamdybiaethau.<br>• Meddyliwch am sut y mae'n gwneud synnwyr o newidiadau yn ei fywyd gartref, ei gydberthnasau, ei drefn arferol, neu ei drefniadau gofal. | • Gall hyn gefnogi eglurder a lleihau'r risg y bydd yr adroddiad yn cael ei ddominyddu gan wrthdaro rhwng y rhieni neu naratifau oedolion. |

## 4. Enghreifftiau o Ymarfer: Ailfframio sy’n Canolbwyntio ar y Plentyn

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y gall ailfframio symud y ffocws o ddisgrifiad sy'n canolbwyntio ar oedolion i ddadansoddiad sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac ar yr effaith.

### Enghreifftiau Cyfraith Breifat

| Enghraifft 1: Gwrthdaro Rhwng y Rhieni | |
|---|---|
| Fframio sy’n Canolbwyntio ar Oedolion | Ailfframio sy’n Canolbwyntio ar y Plentyn |
| “Mae’r ddau riant yn dadlau ynghylch pwy ddylai fod y prif ofalwr. Ni allant gytuno ar yr amserlen wythnosol, ac mae'r cyfathrebu rhyngddynt wedi chwalu.” | “Mae Gwen yn teimlo’n bryderus pan fydd ei rhieni’n dadlau ynglŷn â lle y dylai fyw. Mae'n dweud bod y gweiddi yn gwneud iddi deimlo'n 'sownd yn y canol' a'i bod yn gwneud ei gorau i beidio â siomi'r naill riant na'r llall.<br>Mae Gwen wedi sylwi, pan fydd yr oedolion yn anghytuno, fod cynlluniau'n newid ar y funud olaf, sy'n ei gwneud yn bryderus ynglŷn â gwybod lle y bydd hi ar ôl ysgol.<br>Mae arni angen i'r oedolion o'i chwmpas gydweithio fel bod ei threfniadau arferol yn rhagweladwy, bod y cyfathrebu'n bwyllog, ac y gall deimlo'n rhydd o'r pwysau o orfod dewis rhyngddynt.” |

Mae'r dull hwn yn symud y ffocws o ymddygiadau'r oedolion i ddiogelwch a sefydlogrwydd emosiynol y plentyn. Mae'n blaenoriaethu llais a phrofiad bywyd Gwen, yn tynnu sylw at effaith ansicrwydd arni, ac yn pwysleisio'r hyn y mae arni ei angen gan oedolion, yn hytrach na'r hyn y mae'r oedolion yn ei geisio oddi wrth ei gilydd.

| Enghraifft 2: Colli Amser Teulu | |
|---|---|
| Fframio sy'n Canolbwyntio ar Oedolion | Ailfframio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn |
| "Mae Mr Jones wedi colli pedair sesiwn amser teulu, sy'n achosi oedi wrth symud pethau ymlaen." | "Mae Rhys wedi bod yn edrych ymlaen at dreulio amser gyda'i dad, ac mae'n teimlo'n drist ac yn ddryslyd pan nad yw Mr Jones yn dod i'r sesiynau.<br>Mae wedi dechrau gofyn a yw wedi gwneud rhywbeth o'i le ac yn mynd yn dawel ac yn encilio wedi hynny.<br>Mae angen trefniadau amser teulu ar Rhys sy'n teimlo'n rhagweladwy ac yn ddiogel, fel y gall fwynhau ei amser gyda'r ddau riant heb deimlo'n bryderus nac yn gyfrifol pan fydd trefniadau'n cael eu canslo." |

Mae'r fframio sy'n canolbwyntio ar oedolion yn yr achos hwn yn pwysleisio ymddygiad yr oedolion, cydymffurfiaeth a chynnydd, ac nid yw'n dweud dim wrthym am yr effaith ar y plentyn. Er bod y wybodaeth hon yn bwysig, mae ailfframio'r mater er mwyn canolbwyntio ar y plentyn yn symud y ffocws i brofiad bywyd Rhys. Mae'n helpu i ddangos yr effaith emosiynol arno, nid dim ond yr apwyntiadau a gollwyd. Mae ysgrifennu yn y ffordd hon yn cyd-fynd â model ymarfer sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac yn sicrhau bod yr argymhellion yn ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch, llesiant ac anghenion datblygiadol y plentyn. Mae'r dull yn gyson â'r pwyslais ar ddeall profiadau plant ac asesu niwed ac effaith, a welir yn y model Safe and Together.

## Enghreifftiau Cyfraith Gyhoeddus

| Enghraifft 1: Diffyg Goruchwyliaeth | |
|---|---|
| **Fframio sy'n Canolbwyntio ar Oedolion** | **Ailfframio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn** |
| "Mae Mr a Mrs Owen wedi methu â darparu goruchwyliaeth ddigonol, ac weithiau mae Carys wedi cael ei gadael ar ei phen ei hun am gyfnodau hir." | "Yn aml, nid yw Carys yn siŵr lle mae'r oedolion yn ei chartref ac mae'n teimlo'n ofnus pan gaiff ei gadael ar ei phen ei hun. Mae wedi dweud ei bod yn 'ceisio peidio â symud o gwmpas gormod' rhag ofn i rywbeth ddigwydd.<br><br>Pan nad oes oedolyn ar gael, mae Carys yn paratoi byrbrydau iddi hi ei hun ac yn mynd i'r gwely ar ei phen ei hun.<br><br>Mae angen goruchwyliaeth ddiogel a chyson arni ac oedolyn sy'n sylwi pan fydd yn llwglyd, yn ofnus, neu pan fydd angen help arni." |

Mae'r ailfframio hwn yn symud y ffocws o fethiannau a diffyg cydymffurfiaeth y rhieni i brofiad bywyd Carys. Mae'n dangos canlyniadau penodol ymddygiad rhieni Carys, sy'n gwneud y risg a'r niwed a'r effaith arni yn glir ac yn benodol. Mae'n tynnu sylw at niwed emosiynol, yn ogystal â risg gorfforol, ac yn dangos sut mae Carys yn addasu i'w hanghenion nad ydynt yn cael eu diwallu. Gall hyn gael ei methu os yw'r ffocws yn parhau ar ymddygiad y rhieni, yn hytrach nag ar ymatebion y plentyn. Wrth ddisgrifio ymddygiad Carys yn ei geiriau ei hun, mae'n cyd-fynd ag ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac yn ystyried ei hymatebion emosiynol, nid ymddygiadau arwynebol yn unig.

| Enghraifft 2: Defnydd Alcohol y Rhieni | |
|---|---|
| Fframio sy'n Canolbwyntio ar Oedolion | Ailfframio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn |
| "Mae Mrs Evans yn parhau i gamddefnyddio alcohol ac nid yw wedi lleihau ei defnydd er gwaethaf y cymorth a gynigiwyd." | "Oherwydd defnydd alcohol ei Fam, yn aml nid yw Gethin yn gwybod sut fydd ei nosweithiau.<br><br>Ar ddiwrnodau pan fydd ei Fam wedi bod yn yfed, mae Gethin wedi dweud ei fod yn teimlo'n 'bryderus' a'i fod yn ceisio gofalu am ei chwaer fach drwy wneud byrbrydau a'i chadw'n brysur.<br><br>Mae hyn yn golygu bod Gethin yn ymgymryd â chyfrifoldebau oedolion ac na all ymlacio na chanolbwyntio ar ei waith cartref.<br><br>Mae arno angen gofal rhagweladwy, sicrwydd emosiynol ac amgylchedd yn ei gartref lle mae'n teimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei ofalu amdano." |

Mae'r ailfframio hwn yn symud y ffocws o fethiannau'r rhieni i'r effaith ar Gethin, ei lais, ei anghenion presennol a'i anghenion yn y dyfodol, a'r canlyniadau sy'n bwysig i'w lesiant. Mae'n pwysleisio profiadau bywyd Gethin a'r hyn sy'n rhaid gwella iddo, nid yn unig yr hyn sy'n rhaid i'r rhiant roi'r gorau i'w wneud. Mae ailfframio yn y modd hwn yn cyd-fynd â'r Rhestr Wirio Lles, yn cryfhau'r broses ddadansoddi ac yn sicrhau bod adroddiadau'n fwy hygyrch ac yn canolbwyntio'n gliriach ar y plentyn.

## 5. Ysgrifennu'n Glir, yn Gywir ac yn Ddadansoddol

Mae ein hadroddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwn drwy ein hymholiadau. Dylent fod yn ystyriol o drawma, yn gywir, yn ddadansoddol, yn deg, ac yn gytbwys. Rhaid i brofiad a llais y plentyn fod yn ganolog. Rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn adroddiadau fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn berthnasol, a bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o adroddiad a'r materion dan sylw.

### Awgrym ar Gyfer Ymarfer

Gofynnwch i chi eich hun: :

- Sut mae hyn yn ychwanegu at yr hyn rydym eisioes yn ei wybod?
- Ydw i wedi ysgrifennu mewn iaith glir, niwtral ac anfeirniadol?
- Ydw i'n dweud rhywbeth angenrheidiol, newydd neu eglurhaol wrth y llys?
- Ydy fy nadansoddiad yn glir, yn rhesymegol ac yn seiliedig ar dystiolaeth?
- Ydw i wedi gwahaniaethu rhwng ffeithiau, arsylwadau a barn broffesiynol?
- A fydd yr oedolion sy'n cymryd rhan yn deall beth rydw i wedi'i ysgrifennu?
- Sut fydd y plentyn neu'r person ifanc yn teimlo os bydd yn gweld yr adroddiad hwn yn y dyfodol?

Mewn gwaith cyfraith breifat, dylem wneud y canlynol:

- Osgoi paragraffau naratif hir sy'n nodi safbwynt pob unigolyn yn fanwl.
- Canolbwyntio ar les y plentyn.
- Cofio bod yn rhaid crynhoi gwybodaeth gan asiantaethau, yn enwedig datgeliadau'r heddlu, mewn modd cymesur, ac na ddylid ei thorri a'i gludo i mewn i adroddiadau.

Mewn gwaith cyfraith gyhoeddus, nid oes angen ailadrodd asesiadau llawn na thystiolaeth yr awdurdod lleol.  Yn hytrach, dylem ddadansoddi ystyr yr asesiadau hynny i'r plentyn.

- Lle mae eich barn broffesiynol fel Gwarcheidwad y Plant yn wahanol i safbwynt ymarferydd neu asiantaeth arall, dylid egluro hyn yn glir ac yn gymesur, gan ddefnyddio iaith adeiladol a chytbwys
- Ym mhob un o'n hadroddiadau, gall dyfyniadau uniongyrchol gan blant gyfleu eu profiad mewn modd dilys a chefnogi dadansoddiad cadarn.

- Os byddwch yn defnyddio dyfyniadau, rhaid iddynt fod yn union gywir ac wedi'u gwahaniaethu'n glir oddi wrth eich dehongliad chi.
- Dim ond pan fyddant yn ychwanegu gwerth y dylech ddefnyddio dyfyniadau gan oedolion, ac ystyriwch a allai defnyddio dyfyniad gynyddu gelyniaeth.

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio iaith sy'n cydnabod cryfderau ac yn osgoi stigma. Gallwn roi disgrifiad gwrthrychol o sefyllfa neu amgylchiadau, hyd yn oed pan fyddant yn heriol neu'n negyddol, heb ddefnyddio iaith sy'n ddirmygus tuag at y person ifanc na'i deulu. Dylem osgoi defnyddio labeli clinigol neu ddiagnostig, megis "anhwylder ymlyniad," "narsisaidd," neu "ffiniol", oni fyddant yn seiliedig ar asesiad ffurfiol a gwblhawyd gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol ac yn uniongyrchol berthnasol i anghenion y plentyn. Gall defnyddio termau diagnostig yn anffurfiol gamgyfleu unigolion ac arwain at stigma.

## 5.1 Sicrhau bod Llais y Plentyn yn cael ei Gynrychioli'n Glir

Wrth ysgrifennu am blentyn neu berson ifanc, gall fod yn ddefnyddiol dychmygu eich bod yn ysgrifennu'n uniongyrchol ato. Mae'r newid persbectif hwn yn annog dull mwy meddylgar sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Efallai y bydd y plant a'r bobl ifanc yn darllen yr adroddiadau a ysgrifennwyd amdanynt ryw ddydd, felly mae'r ffordd rydym yn disgrifio eu profiadau yn bwysig. Os yw'r adroddiad yn canolbwyntio ar anawsterau yn unig, efallai y byddant yn cael darlun negyddol neu anghytbwys ohonynt eu hunain a'u bywydau.

Ein cyfrifoldeb yw sicrhau bod eu profiadau'n cael eu cynrychioli'n gywir, gan ddangos parch atynt. Mae hyn yn golygu nid yn unig cofnodi'r hyn y maent yn ei ddweud, ond ystyried sut maent yn mynegi eu hunain, yr hyn sy'n bwysig iddynt, a'r hyn y gallai eu hymddygiad neu eu cyfathrebu dieiriau fod yn ei ddweud wrthym. Mae hefyd yn golygu cydbwyso anawsterau â chryfderau, cydnabod eu gwydnwch, a chynrychioli eu safbwyntiau mor ddilys â phosibl.

Mae cynrychioli llais y plentyn yn fwy na chofnodi datganiad neu ddewis. Mae'n ymwneud â'r canlynol:

- deall ei gam datblygiadol a'i arddull gyfathrebu
- sylweddoli'r cyd-destun y caiff ei farn ei fynegi ynddo
- bod yn effro i ddylanwad oedolion o'i gwmpas
- a sicrhau nad yw dehongliad proffesiynol na gwrthdaro rhwng oedolion yn bwrw cysgod dos ei lais

Dylai llais y plentyn ymddangos drwy gydol yr adroddiad a bod â chysylltiad clir â'ch dadansoddiad a'ch barn broffesiynol. Pan fydd ei farn wedi'i chynrychioli'n dda, mae'n cryfhau'r asesiad a'r argymhellion a wneir i'r llys.

### Awgrym ar Gyfer Ymarfer

**Sut mae llais y plentyn yn cael ei glywed a'i gynrychioli?**
Ystyriwch a yw ei brofiadau a'i farn yn weladwy'n glir drwy gydol eich dadansoddiad.

**Ydw i wedi clywed barn y plentyn yn uniongyrchol ac mewn modd diogel?**
Meddyliwch am y dull a ddefnyddiwyd, pwy oedd yn bresennol, ac a oedd y plentyn yn teimlo ei fod yn gallu mynegi ei hun.

**Ydw i'n cyfleu geiriau'r plentyn yn ffyddlon?**
Defnyddiwch iaith y plentyn ei hun lle bynnag y bo modd a cheisiwch osgoi ailddehongli neu orsymleiddio ei adroddiad.

**Ydw i'n gwahanu ei lais oddi wrth ddylanwad neu bwysau gan oedolion?**
Myfyriwch ar gysondeb ar draws lleoliadau, a yw cyflwyniad y plentyn yn cefnogi ei eiriau, ac unrhyw arwyddion o orfodaeth, gwrthdaro o ran teyrngarwch, neu aliniad.

**Sut mae sicrhau bod ei lais yn ganolog heb roi cyfrifoldeb arno?**
Cyflwynwch ei farn yn glir, ond sicrhewch fod penderfyniadau, dyfarniadau ac argymhellion yn parhau'n gyfrifoldeb yr ymarferydd, ac nid y plentyn.

## 5.2 Ysgrifennu'n Ddiogel ac yn Glir am Gamdriniaeth Domestig

Mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n wybodus am gamdriniaeth ddomestig ac wedi ymrwymo i hyfforddi pob ymarferydd ar y model Safe & Together™. Mae'r model hwn yn cefnogi asesiadau sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- patrwm ymddygiad y cyflawnwr
- effaith yr ymddygiad hwnnw ar brofiad bywyd bob dydd y plentyn
- ymdrechion y rhiant nad yw wedi troseddu i hybu diogelwch, sefydlogrwydd a llesiant
- anghenion y plentyn, gan gynnwys diogelwch, sefydlogrwydd, trefn arferol, sicrwydd emosiynol a datblygiad

Wrth ysgrifennu am gam-drin domestig, dylem wneud y canlynol:

- disgrifio ymddygiadau'n glir, nid labeli yn unig
- nodi patrwm, cyd-destun ac amlder yr ymddygiad niweidiol
- egluro'n glir effaith ymddygiadau oedolion ar y plentyn
- osgoi bychanu ymddygiadau cam-drin drwy eu disgrifio gan ddefnyddio iaith megis *“dadleuon”, “perthynas anwadal”* neu *"gwrthdaro difrifol”*
- osgoi iaith sydd, yn anfwriadol, yn beio neu'n patholegeiddio'r rhiant nad yw wedi troseddu
- sicrhau bod ein dadansoddiad yn parhau'n gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth

Wrth ysgrifennu ar gyfer y llys, dylem wahaniaethu’n glir rhwng ffeithiau sefydledig, megis canfyddiadau a wnaed gan y llys teulu neu’r llys troseddol, neu ymddygiadau a dderbyniwyd neu a gyfaddefwyd gan yr unigolyn sy’n gyfrifol, a honiadau o gamdriniaeth ddomestig neu niwed nad ydynt wedi'u cadarnhau neu sy’n cael eu herio gan eraill yn yr achos. Gall y Canllaw Cyfeirio Cyflym eich cynorthwyo i gyflwyno a dadansoddi gwybodaeth o'r fath mewn ffordd glir, gytbwys, sy'n ystyriol o gamdriniaeth ddomestig.

## Awgrym ar Gyfer Ymarfer

Cyn cwblhau unrhyw adroddiad neu gofnod achos sy'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig, gofynnwch y canlynol:

**Patrwm**
Ydw i wedi disgrifio beth ddigwyddodd, pa mor aml, ac ym mha batrwm?

**Yr Effaith ar y Plentyn**
Ydw i wedi egluro'n glir sut mae'r ymddygiad yn effeithio ar ddiogelwch, trefn arferol, emosiynau neu ddatblygiad y plentyn?

**Ymdrechion Amddiffynnol**
Ydw i wedi cydnabod camau'r rhiant nad yw wedi troseddu i hybu diogelwch a sefydlogrwydd?

**Ymddygiad Yn Lle Labeli**
Ydw i wedi disgrifio ymddygiadau penodol, yn hytrach na dibynnu ar labeli neu grynodebau?

**Tystiolaeth**
Ydy fy natganiadau wedi'u cefnogi gan dystiolaeth, arsylwadau, neu ffynonellau dibynadwy?

Wrth ysgrifennu eich adroddiad neu nodiadau achos, os byddwch yn nodi risgiau uniongyrchol neu'n credu y gallai cyflwyno'r adroddiad greu neu gynyddu risg, ystyriwch a ddylid dilyn Gweithdrefn Diogelu Gweithredol Cafcass Cymru.

Dylech hefyd ystyried a yw'r sefyllfa'n gofyn am ffeilio Asesiad Risg Adran 16A gyda'r llys.

## 6. Cynllunio a Chofnodi Achosion

Mae Rebekah Pierre yn tynnu sylw at y modd y gall yr iaith y mae gweithwyr proffesiynol yn ei defnyddio i ddisgrifio plant arwain, yn anfwriadol, at greu stigma a rhwystrau i ymgysylltu. Mae ei gwaith yn adlewyrchu neges ehangach, sef bod y ffordd rydym yn ysgrifennu am blant a theuluoedd yn bwysig. Mae'n llywio'r modd y mae pobl yn deall eu hunain a gall ddylanwadu ar y modd y mae eraill yn ymateb iddynt.

Mae Cafcass Cymru yn disgwyl ein bod yn cofnodi gwybodaeth allweddol yn electronig yn ystod pob cam o achos o fewn ffeil achos IRIS. Mae hyn yn dechrau gyda'r cyswllt cyntaf ac yn parhau hyd at ddiwedd yr ymgysylltiad. Dylai pob cofnod fod yn gyfrif clir, cywir a chytbwys o'r wybodaeth allweddol a gasglwyd. Mae'r prosesau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu tystiolaeth ar gyfer ddadansoddi a gwneud penderfyniadau, ac maent yn ffurfio sylfaen hanfodol ar gyfer adroddiadau i'r llys.

Mae cofnodi achosion yn dda yn helpu i ganolbwyntio ein gwaith ac yn cyfrannu at waith partneriaeth effeithiol gyda theuluoedd, gan sicrhau ffocws cyson ar anghenion y plentyn a'r canlyniadau gorau.

Mae recordiadau clir a chywir hefyd yn helpu plant, nawr a phan fyddant yn oedolion, i ddeall pa benderfyniadau a wnaed yn ystod eu plentyndod a pham.

### 6.1 Diben Cofnodi Achosion

Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch diben pob cofnod achos. Er enghraifft, wrth gofnodi ymweliad â phlentyn efallai yr hoffech ystyried y canlynol:

- diben yr ymweliad
- yr hyn a ddigwyddodd a#r hyn a ddywedodd neu a fynegodd y plentyn
- eich arsylwadau
- y modd y mae'r ymweliad yn cyfrannu at yr asesiad cyffredinol
- beth mae hyn yn ei olygu i ddiogelwch, llesiant a phrofiad bywyd y plentyn

Nid tasgau gweinyddol yw recordiadau achos, ond dogfennau proffesiynol a ddylai adlewyrchu hunaniaeth, diwylliant, cryfderau a phrofiad bywyd pob plentyn a theulu. Dylent gael eu hysgrifennu mewn iaith y gall yr oedolion sy'n cymryd rhan a phlant ei deall, ac sy'n adlewyrchu eu bywydau mewn ffordd y gallant ei hadnabod.

### 6.2 Effaith Cofnodi Achosion ar Blant a Theuluoedd

Mae cofnodi achosion yn dda o fudd uniongyrchol i blant. Mae'n cryfhau'r asesiad a'r broses o wneud penderfyniadau, yn cefnogi dull cyfathrebu cliriach â theuluoedd, ac yn galluogi plant yn ddiweddarach mewn bywyd i wneud synnwyr o'u profiadau.

Fel y mae'r canllawiau Arfer Da wrth Gofnodi a Mynediad at Gofnodion yn amlygu: "I rai plant, gall eu cofnodion achos gynrychioli un o'r ychydig ffynonellau gwybodaeth am eu bywyd cynnar, a gall y sensitifrwydd a'r gofal a gymhwysir wrth greu, cynnal a chadw'r cofnodion hynny gael effaith uniongyrchol ar lesiant ac iechyd pobl drwy gydol eu bywydau."

I'r gwrthwyneb, gall cofnodi achosion yn wael awgrymu nad oedd safbwyntiau plentyn neu deulu yn cael eu gwerthfawrogi os bydd eu barn a'u profiadau ar goll, wedi'u cynrychioli'n anghywir, neu os bydd digwyddiadau negyddol yn bwrw cysgod drostynt.

Gall cofnodion sy'n gorbwysleisio problemau ac yn hepgor profiadau cadarnhaol beri i stori'r plentyn gael ei chamliwio ac arwain at ddadansoddiad anghytbwys. Gall hyn ddylanwadu ar benderfyniadau mewn ffyrdd nad ydynt yn adlewyrchu profiad bywyd y plentyn yn llawn.

Yn aml, caiff recordiadau achos eu darllen gan y bobl y maent yn ymwneud â nhw. Dylai hyn lywio'r cynnwys a thôn yr hyn a ysgrifennwn. Rhaid cofnodi pryderon yn glir fel bod teuluoedd yn deall y rhesymau dros gynnwys gweithwyr proffesiynol a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Dylai'r iaith amlygu parch a bod yn gymesur a hygyrch.

Gall darllen recordiadau achos gael effaith emosiynol sylweddol ar yr unigolion dan sylw. Gall gweld "y modd y maent yn cael eu portreadu" mewn cofnodion proffesiynol beri gofid, a gall hyd yn oed iaith niwtral gael ei dehongli fel un feirniadol. Gall profiadau o'r fath danseilio ymddiriedaeth a gallant arwain at unigolion yn tynnu'n ôl o wasanaethau.

Mae angen i ni feddwl yn ofalus am yr iaith a ddefnyddiwn yn ein recordiadau achos: Gall recordiadau achos clir, parchus a chytbwys helpu i feithrin ymddiriedaeth a chryfhau cyfranogiad a chydberthnasau gwaith. I'r gwrthwyneb, gall cofnodion amwys neu anghyflawn danseilio cydberthnasau ac effeithio'n andwyol ar ymgysylltiad â gweithwyr proffesiynol unigol a'r system ehangach.

### 6.3 Llais y Plentyn

Dylai recordiadau achos wneud y plentyn yn weladwy. Gallai hyn gynnwys cyfleu'r canlynol:

- dymuniadau a theimladau'r plentyn
- ei ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd
- y modd y mae'n cyfleu ei anghenion (gan gynnwys ddieiriau)
- arsylwadau ei gyflwyniad, ei ryngweithiadau, a'i brofiadau o ddydd i ddyd

Mae plant ifanc, neu'r rhai nad ydynt yn cyfathrebu ar lafar, yn cyfleu gwybodaeth bwysig drwy eu hymddygiad a dulliau dieiriau eraill.  Gall cofnodi ein harsylwadau ar eu hymddygiad, eu cyflwyniad emosiynol a'u rhyngweithiadau ein helpu i ddangos tystiolaeth o'u dymuniadau a'u teimladau a'u deall.

## 6.4 Amrywiaeth, Hunaniaeth a Phrofiad Bywyd

Mae cofnodi achosion yn dda yn cydnabod hunaniaeth ac amrywiaeth fel rhywbeth canolog i brofiad bywyd person, yn hytrach na'u trin fel "ychwanegiad". Dylai cofnodion gynnwys:

- cryfderau sy'n gysylltiedig â hunaniaeth, diwylliant a chymuned, a
- rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth.

Yn aml, mae amrywiaeth yn cyflwyno cryfderau cyfoethog sy'n cyfrannu at wydnwch a llesiant.  Dylech archwilio a, lle bo'n berthnasol, cofnodi ffactorau megis:

- rhwydweithiau cymunedol cryf
- sgiliau dwyieithog neu amlieithog
- gwydnwch sy'n seiliedig ar ffydd neu ddiwylliant
- cyfranogiad y teulu estynedig
- traddodiadau diwylliannol sy'n cefnogi arferion, ymdeimlad o berthyn, a sefydlogrwydd

Mae cydnabod y cryfderau hyn yn helpu i sicrhau bod straeon unigolion yn cael eu cynrychioli mewn ffordd gytbwys a chadarnhaol.

Ar yr un pryd, gall rhai agweddau ar hunaniaeth ac amrywiaeth greu rhwystrau neu gynyddu bregusrwydd.  Dylech gofnodi'r rhain yn glir lle maent yn effeithio ar y plentyn, y rhiant, neu'r gofalwr.  Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- profiadau o wahaniaethu neu hiliaeth
- anfantais economaidd sy'n effeithio ar arferion neu fynediad at adnoddau
- anghenion o ran cyfieithu neu gyfathrebu
- anabledd neu niwroamrywiaeth sy'n gofyn am addasiadau
- stigma diwylliannol ynghylch gofyn am gymorth
- statws mewnfudo neu ansicrwydd sy'n effeithio ar sefydlogrwydd

Mae cofnodi'r ffactorau hyn yn helpu wrth lunio asesiadau teg a gwybodus.  Gall egluro pam mae pryderon penodol yn bodoli, pa gymorth y gallai fod ei angen, a sut y gall anghydraddoldebau neu achosion o wahaniaethu ddylanwadu ar brofiad rhywun.

Mae cofnodi achosion mewn modd cytbwys yn sicrhau bod stori plentyn, rhiant, neu ofalwr yn adlewyrchu cryfderau a heriau, gan gynnig dealltwriaeth fwy cyflawn a chywir o'u profiad bywyd.

Awgrym ar Gyfer Ymarfer

**Pa hunaniaethau sy'n weladwy, a pha rai a allai gael eu diystyru?**

Ydw i wedi cydnabod ffactorau megis hil, diwylliant, dosbarth, anabledd, rhywedd neu ffydd lle y bo'n berthnasol?

**Ydw i'n osgoi neu'n gorbwysleisio agweddau ar hunaniaeth?**

Ydy fy recordiad yn gytbwys ac yn amlygu parch?

**Sut mae pŵer yn gweithredu yma?**

Sut y gwnaeth fy awdurdod proffesiynol lywio'r rhyngweithio?

**Ydw i wedi ystyried ffactorau strwythurol megis tlodi neu wahaniaethu?**

Ydw i'n unigoleiddio heriau a allai fod, mewn gwirionedd, yn systemig?

**Beth ydw i'n betrusgar neu'n anghyfforddus i'w enwi?**

A fyddai cydnabod y gwahaniaethau hyn yn gwella dealltwriaeth?

## 7. Defnyddio Iaith sy’n Cefnogi Plant a Theuluoedd

Mae'r egwyddorion canlynol yn adlewyrchu arfer sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a gallant fod yn ddefnyddiol wrth ysgrifennu gyda phlant a theuluoedd mewn golwg. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol nac yn rhagnodol. Mae wedi'i lywio gan argymhellion “Gwyliwch eich Geiriau” y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

### Egwyddorion Cyffredinol

- Dylid osgoi talfyriadau neu acronymau. Os cânt eu defnyddio, ysgrifennwch nhw'n llawn y tro cyntaf oni bai eu bod yn cael eu deall yn eang (e.e. Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)).
- Dylid osgoi iaith sy'n awgrymu bai tuag at bobl sydd wedi profi camdriniaeth (e.e., *“dewisiadau ffordd o fyw,” “y tu hwnt i reolaeth rhieni”*).
- Dewiswch iaith sy’n amlygu parch, yn glir, ac yn hygyrch, gan gydnabod y gallai plant a theuluoedd ddarllen eu cofnodion a’u hadroddiadau i'r llys.

### Dewisiadau Amgen a Awgrymir:

### Trefniadau Teuluol sy’n Canolbwyntio ar y Plentyn

| Ceisiwch osgoi | Ystyriwch Ddefnyddio |
|---|---|
| gwarchodaeth / preswylio / cyswllt | yn byw gyda / cartref plentyn / amser teulu / yn treulio amser gyda |
| 50/50 | yn byw gyda'r ddau / rhannu'r gofal / gofal ar y cyd / cyfrifoldeb ar y cyd am |

Mae'r dewisiadau amgen hyn yn adlewyrchu profiad y plentyn ac yn osgoi terminoleg sy'n rhy gyfreithiol neu wrthwynebus.

### Disgrifio Pobl Mewn Achosion

| Ceisiwch osgoi | Ystyriwch Ddefnyddio |
|---|---|
| ceisydd / atebydd / partïon | enwau unigolion / mam / tad / rhiant / gofalwr (fel y bo'n briodol) |
| defnyddwyr gwasanaeth | pobl / teuluoedd / plant / rhieni |

Mae defnyddio enwau pobl yn helpu i gynnal urddas ac yn osgoi dadbersonoli.

### Disgrifio Gwrthdaro neu Broblemau

| Ceisiwch osgoi | Ystyriwch Ddefnyddio |
| --- | --- |
| anghydfod | mater / gwahaniaeth / problem i'w datrys |
| honedig | meddai / yn dweud / yn datgan / wedi dweud wrth weithwyr proffesiynol |
| datgelodd / datgeliad | rhannodd / dywedodd / adroddodd / disgrifiodd / darparodd wybodaeth am |

Mae'r dewisiadau amgen hyn yn lleihau fframio gwrthwynebus ac yn canolbwyntio ar safbwyntiau heb ragfarnu tystiolaeth.

### Iaith sy'n Osgoi Bai neu Stigma

Dylech osgoi iaith sy'n awgrymu bod cyfrifoldeb am gamdriniaeth yn nwylo'r unigolyn sydd wedi'i niweidio. Yn lle termau megis:

- "dewisiadau ffordd o fyw"
- "rhoi eu hunain mewn perygl"
- "y tu hwnt i reolaeth rhieni" (yn enwedig yn achos pobl ifanc yn eu harddegau sy'n profi trawma, camfanteisio, neu amhariad ar ofal)

Dylech ystyried iaith sy'n cydnabod yr effaith a'r cyd-destun, er enghraifft:

- "wedi profi ansefydlogrwydd sylweddol"
- "yn delio ag effaith…"
- "wedi profi rhwystrau sydd wedi cyfyngu ar ei ddewisiadau neu ei gyfleoedd"

## Nodyn Atgoffa o ran Ymarfer: Gwiriad Terfynol

### Eglurder a Chynulleidfa

- A fydd rhiant neu berson ifanc yn ei ddeall heb fod angen geirfa?
- Ydw i wedi osgoi acronymau a jargon diangen?

### Canolbwyntio ar y Plentyn

- Ydy profiad bywyd y plentyn yn ganolog?
- Ydw i wedi cysylltu ymddygiad oedolion ag effeithiau penodol ar y plentyn?

### Cydbwysedd a Chymesuredd

- Ydw i wedi nodi risgiau'n glir ac wedi cofnodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol hefyd?
- Ydw i wedi sicrhau bod y plentyn a'r oedolyn yn gwybod beth fydd yr adroddiad yn ei gynnwys, ac ydw i wedi egluro hyn cyn ffeilio gyda'r llys?
- Ydy'r cynnwys yn angenrheidiol, yn berthnasol, ac yn gymesur?

### Tystiolaeth a Dadansoddi

- Ydw i wedi gwahaniaethu ffeithiau, arsylwadau a barn broffesiynol?
- Ydy fy nadansoddiad yn glir, yn rhesymegol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth?

### Iaith a Thôn

- Ydy'r tôn yn amlygu parch, yn bwyllog, ac yn anfeirniadol?
- A fyddai hyn yn teimlo'n urddasol pe bai'r teulu'n ei ddarllen?
- Ydw i wedi sicrhau fy mod wedi sillafu enwau'r plant a'r oedolion yn gywir drwy gydol yr adroddiad?

### Cynhwysiant a Hunaniaeth

- Ydw i wedi adlewyrchu hunaniaeth, diwylliant, iaith, ac unrhyw addasiadau gofynnol?
- Ydw i wedi cofnodi rhwystrau (e.e., gwahaniaethu) a chryfderau (e.e., rhwydweithiau cymunedol)?

## Cyfeiriadau, dolenni defnyddiol ac adnoddau ychwanegol

**1. Iaith, Cyfathrebu ac Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gydberthnasau**

Rhieni ag Anableddau Dysgu – Canllawiau Llywodraeth Cymru
(Yn cynnwys canllawiau ar iaith, hygyrchedd ac ymarfer sy'n seiliedig ar gydberthnasau)

https://www.gov.wales/parents-learning-disabilities-guidance

- An Exploration of Language Used by Professionals Working with Children with Care Experience (COSLA)

  https://www.cosla.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0019/47323/Language-Study..pdf

- Language Matters – Family Solutions Group

  https://www.familysolutionsgroup.co.uk/language-matters/

- TACT – Language That Cares

  https://www.tactcare.org.uk/content/uploads/2019/02/TACT-Language-That-Cares.pdf

- Y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc – Gwyliwch eich Geiriau

  https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2021/12/FJYPB-Mind-Your-Language.pdf

- Community Care – "Divisive, demeaning and devoid of feeling": how social work jargon causes problems for families

  https://www.communitycare.co.uk/2018/05/10/divisive-demeaning-devoid-feeling-social

- Community Care – "I wanted to go back and stand up for the little girl that I was"

  (Erthygl yn archwilio effaith iaith ac ymarfer ar bobl â phrofiad bywyd.)

  https://www.communitycare.co.uk/2019/11/07/wanted-go-back-stand-little-girl/

**2. Safonau Proffesiynol, Cofnodi Achosion a Disgwyliadau ar gyfer Ymarfer**

- Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru
- Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2024) – Canllawiau ar Osgoi Termau megis 'Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant'
- Cyfaill nid Gelyn: Cefnogi cofnodi ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru

  https://socialcare.wales/resources/research-and-evaluation/friend-not-foe-outcome-focused-recording

- Arfer Da wrth Gofnodi a Mynediad at Gofnodion (Gofal Cymdeithasol Cymru)

  https://socialcare.wales/resources/good-practice-in-recording-and-access-to-records

- Gofal Cymdeithasol Cymru – Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

  https://socialcare.wales/standards-and-guidance/code-of-professional-practice

- BASW – Cod Moeseg ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

  https://www.basw.co.uk/about-basw/code-ethics

**3. Adnoddau ar gyfer Ymarfer Cam-drin Domestig**

- Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig Cafcass Cymru
- Sefydliad Safe & Together – Egwyddorion Craidd (safle cyfeirio allanol)

  https://safeandtogetherinstitute.com

- Llywodraeth Cymru – Canllawiau ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

  https://www.gov.wales/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence

- BAWSO (ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau cam-drin domestig sy'n ddiwylliannol benodol)

  https://bawso.org.uk

**4. Ymarfer Amlasiantaeth, Diogelu a Gwaith Cymdeithasol**

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru

  https://diogelu.cymru/cy/

- Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus – Adroddiadau a Chanllawiau Arfer Gorau

  https://www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/advisory-bodies/fjc/plwg/

- Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – Ymchwil ar Orchmynion Goruchwylio ac Amddiffyn Plant

  https://www.nuffieldfjo.org.uk

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

  https://www.gov.wales/elective-home-education-guidance-local-authorities

- Llywodraeth Cymru – Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol

  https://www.gov.wales/ending-physical-punishment-children-wales

## 5. Deunyddiau Mewnol Defnyddiol gan Cafcass Cymru

- Canllawiau ar Weithio gyda Phlant a Theuluoedd
- Canllawiau ar Geisiadau Adran 37